

Perchennog/Meddiannydd
Ffyrdd amrywiol
Taffs Well



Gofynnwch Am/ Please Ask For: John Galvin

Ffon/Telephone: 01443 281106

Fy Nghyf/ My Ref:
IF 066/JG

Eich Cyf/ Your Ref:

Dyddiad/ Date: 22/02/2019

Annwyl Berchennog/Feddiannydd,

Ffyrdd Amrywiol, Ffynnon Taf – Cynllun Parcio i Drigolion Arfaethedig

Dyma roi gwybod bod adolygiad o gyfyngiadau parcio ac aros ar sawl ffordd yn ardal Ffynnon Taf wedi cael ei gynnal. Mae cynigion wedi cael eu drafftio mewn perthynas â chyflwyno cynllun Cyfyngiadau Aros 1 awr a Dim Dychwelyd o fewn 2 awr rhwng 8am ac 6pm, dydd Llun i ddydd Sadwrn lle mae modd darparu manau parcio cyfreithlon a diogel ar y briffordd gyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd y Cyfyngiadau Aros (llinellau melyn) yn cael eu diwygio neu'u cyflwyno i gydymffurfio â diogelwch y cynllun. Dylid nodi bod dim ond modd i'r Cyngor ddarparu manau parcio mewn lleoliad lle mae lled y ffordd gerbydau yn ddigon fel bod modd i draffig lifo a heb fod angen i gerbydau barcio ar y llwybr troed.

Bydd gan breswylwyr gyfle i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cynllun yma, boed hynny o blaid neu yn erbyn y cynigion. **Nodwch, rhaid i fwy na 50% o'r trigolion sy'n byw ar y stryd ymateb o blaid y cynigion er mwyn i'r Cyngor fwrw ymlaen â gwaith cyflwyno cyfleusterau parcio i breswylwyr.**

Mae'r manylion ynglŷn â'r cynlluniau arfaethedig yma i'w gweld yn y llun T2017/123/1a a T2017/123/1b. Yn ogystal â hynny, mae modd eu gweld ar y wefan – www.rctcbc.gov.uk/traffig

Er hwylustod, mae ffurflen ac amlen barod a thaflen cwestiynau cyffredin wedi'u cynnwys â'r llythyr yma. Fel arall, efallai byddwch chi'n dymuno ymateb trwy e-bost: gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk Dylech chi gyflwyno sylwadau erbyn 15/03/2019. Os na fydda i wedi clywed oddi wrthoch chi erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad ydych chi'n gwrthwynebu'r cynigion.

Er bod eich sylwadau'n bwysig i ni ac yn hanfodol o ran helpu'r Cyngor gyda'i waith o wneud penderfyniadau, bydd unrhyw faterion eraill y tu allan i gylch gwaith y cynllun yma'n cael eu hanwybyddu. Serch hynny, fydd dim modd i'r swyddogion gyflwyno ymateb ffurfiol i'ch sylwadau yn ystod y cam yma o'r broses. Yn hytrach, byddan nhw'n ystyried unrhyw newidiadau dilys i'r cynnig i'w cynnwys yn yr hysbysiad cyhoeddus.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

John Galvin
Swyddog Technegol Uwch (Traffig), Rheoli Traffig

Tŷ Sardis/Sardis House
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU


Ffôn/Tel: 01443 425001
Ffacs/Fax: 01443 490414

Chris Lee C.P.F.A

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



The Owner / Occupier
Various Roads
Taffs Well



Gofynnwch Am/ Please Ask For: John Galvin

Ffon/Telephone: 01443 281106

Fy Nghyf/ My Ref:
IF 066/JG

Eich Cyf/ Your Ref:

Dyddiad/ Date: 22/02/2019

Dear Owner/Occupier

Various Roads Taffs Well - Proposed Residents Parking Scheme

To make you aware, a review of parking and waiting restrictions in various roads Taffs Well has been conducted and proposals have been drafted for a Residents Parking / Limited Waiting Monday-Saturday 8am-6pm 1 hour No Return Within 2 hours scheme where, it is possible to provide legal and safe parking places on the public highway. Waiting Restrictions (yellow lines) may be amended or introduced to comply with the safety of the scheme. It should be noted that the Council can only provide parking at locations where the width of the carriageway is sufficient to allow traffic to flow and without vehicles parking on the footway.

Residents will have the opportunity to provide comments on this scheme either in support or in opposition of these proposals. **Please note that in order for the Council to be able to proceed with the introduction of residents parking, more than 50% of residents of a street need to respond in favour of the proposals.**

Details of the proposals are shown on the attached drawings T2017/123/1a and T2017/123/1b, which may also be viewed at www.rctcbc.gov.uk/traffic

For your convenience, a pro forma, a postage paid addressed envelope and a frequently asked questions sheet is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to trafficservices@rctcbc.gov.uk Responses should be returned with your observations by 15/03/2019 If I do not hear from you by that date, I shall assume that you have no comment to make on the proposals.

Whilst your comments are important to us and are essential in helping the Council in its decision making process, other matters outside the remit of this scheme will be ignored. Officers will provide no formal response to your comments at this stage of the consultation, instead consider any valid changes for the proposal to take to public notice.

I trust the above is of assistance, however if you require any further information please do not hesitate to contact me.

Yours faithfully

John Galvin
Senior Technical officer (traffic), Traffic Management

Tŷ Sardis/Sardis House
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001
Ffacs/Fax: 01443 490414

Chris Lee C.P.F.A

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

